# Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data 2023/24:

# *Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy’n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 2025*

## Cam un: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data drafft hwn wedi’i ddatblygu i ystyried goblygiadau cynigion i gyflwyno rheoliadau a fyddai’n (a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu, cynnal a chadw cronfa ddata o blant oedran ysgol statudol a allai fod yn colli addysg, h.y. ‘cronfa ddata o blant sy’n colli addysg’, a (b) ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol rannu gwybodaeth sylfaenol am blant sydd wedi’u cofrestru gyda nhw, gyda’r awdurdod lleol lle mae’r plentyn yn preswylio fel arfer, at ddiben sefydlu’r gronfa ddata. Mae asesiad Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ac Erthygl 36(4) (o GDPR y DU) yn cadarnhau, gan fod y cynigion yn ymwneud â chyfuno a chymharu/paru data personol a gafwyd o ffynonellau lluosog, y bernir ei bod yn briodol datblygu Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Cyflwynwyd y ffurflen Erthygl 36(4) i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ar 1 Rhagfyr 2023 ac ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am y cynnig (drwy Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data) cyn i broses Erthygl 36(4) ddod i ben.

1.2 Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data drafft hwn yn ystyried risgiau cydymffurfedd, ond hefyd risgiau ehangach i hawliau a rhyddid unigolion. Mae'n asesu lefel y risg – gan ystyried y tebygolrwydd a difrifoldeb unrhyw effaith ar unigolion – ac yn helpu i leihau risgiau ac asesu a yw'r risgiau sy'n weddill yn gyfiawn, yn angenrheidiol ac yn gymesur ai peidio. Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data yn rhan hanfodol o ymgorffori diogelu data yn y broses ddylunio. Ei nod yw cynnwys cydymffurfedd diogelu data a dylanwadu ar sut y caiff y cynnig ei ddatblygu a'i weithredu.

1.3 Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data wedi bod yn ddogfen weithio, a ddatblygwyd ochr yn ochr â chyd-awduro’r polisi â rhanddeiliaid, a thystiolaeth o’r ymgynghoriad blaenorol ar Reoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Gwybodaeth) (Cymru) a gynhaliwyd yn 2019, a Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy’n Colli Addysg) (Cymru) 2025 fel y’u diwygiwyd.

1.4 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y rheoliadau rhwng 31 Ionawr 2024 a 25 Ebrill 2024, a chafwyd gwerthusiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ym mis Mehefin 2024.

## 2. Cefndir y cynigion

2.1 Mae'r cynigion i ddatblygu cronfeydd data ar gyfer awdurdodau lleol o blant a allai fod yn colli addysg, a sefydlu trefniadau rhannu data clir rhwng cyrff cyhoeddus perthnasol, wedi bod yn cael eu trafod, ac wedi bod yn y camau cynnar o gael eu datblygu, ers marwolaeth drasig Dylan Seabridge yn Sir Benfro yn 2011. Addysgwyd Dylan gartref ac nid oedd wedi cael ei weld gan unrhyw weithiwr proffesiynol ers saith mlynedd, er ei fod wedi cofrestru gyda meddyg teulu. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ar y pryd fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau lles a diogelwch pob plentyn, a sefydlu cofrestr orfodol o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref i'w hatal rhag cael eu hanwybyddu ac o bosibl rhag cael eu niweidio. Er nad oes tystiolaeth bod derbyn addysg yn y cartref ynddo'i hun yn risg o ran diogelu, mae plant nad ydynt yn cael eu gweld yn rheolaidd gan weithwyr proffesiynol â dyletswyddau diogelu yn fwy tebygol o fod mewn perygl. Hyd yn oed os *nad* yw plentyn mewn perygl o niwed corfforol, mae colli addysg ynddo'i hun yn fater lles gan nad yw'r plentyn hwnnw'n cael ei hawl i addysg. Mae plant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg addas mewn perygl mwy o amrywiaeth o ganlyniadau negyddol a allai niweidio eu cyfleoedd mewn bywyd yn y tymor hir. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn cael addysg addas ac effeithlon, maent nid yn unig yn cael cyfle i gyflawni eu potensial, ond maent hefyd mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i hyrwyddo eu llesiant (canllawiau-statudol-helpu-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg.pdf (llyw.cymru)).

2.2 Er bod Dylan Seabridge yn hysbys i awdurdodau, gwrthodwyd ymdrechion i'w weld gan ei rieni. Mewn achosion fel ei un ef, byddai'r cyfuniad o'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref a'r cynigion ar gyfer cronfa ddata o blant sy'n colli addysg yn cryfhau sefyllfa'r awdurdod lleol. Mae'r canllawiau ar addysg ddewisol yn y cartref yn pwysleisio'r angen i 'weld y plentyn' (er nad yw hyn yn orfodol) a byddai gofynion y gronfa ddata yn sicrhau y byddai plentyn mewn amgylchiadau tebyg yn cael ei ddosbarthu'n blentyn sy'n colli addysg (gan na fyddai'r awdurdod lleol yn gallu cyflawni ei ddyletswydd adran 175 o sicrhau bod y swyddogaethau a roddwyd iddo yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod lleol yn cael eu harfer gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant) yn hytrach na phlentyn mewn addysg ddewisol yn y cartref sydd 'heb ei weld'.

2.3 Er bod achosion fel achos Dylan Seabridge yn brin, mae nifer y plant y gwyddys eu bod yn cael addysg ddewisol yn y cartref wedi cynyddu'n sylweddol ers 2019. Cyn y pandemig, roedd nifer y plant a oedd yn cael addysg ddewisol yn y cartref yn 2,517 (2018/19). Cododd y nifer i 4,022 ym mlwyddyn academaidd 2020/21 ac i 6,156 yn 2023/24.

2.4 O ystyried y cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd bellach yn cael addysg ddewisol yn y cartref, mae cynnydd awtomatig yn nifer y plant sydd â'r potensial i fod yn blant sy'n colli addysg, gydag awdurdodau lleol yn adrodd nad ydynt bob amser yn gwybod am blant sy'n byw yn eu hardaloedd a'i bod yn anodd pennu niferoedd cywir ar gyfer plant sy'n colli addysg.

2.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad trylwyr ar " system orfodol ar gyfer cofrestru a monitro plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref" yn 2012, ond fe'i gohiriwyd wedyn gan weinyddiaeth Llywodraeth Cymru ar y pryd.

2.6 Mae'r adolygiad ymarfer plant i farwolaeth Dylan a gyhoeddwyd yn 2016 yn cynnwys sawl cyfeiriad at y ffaith bod Dylan yn 'anweledig' i'r awdurdodau. Yn y Senedd yn 2016, bu Gweinidogion Cymru yn trafod yr argymhellion a nodir yn adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru. Un o'r argymhellion oedd: "*cryfhau'r gofynion cofrestru ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref*".

## 3. Trefniadau ar draws y DU

3.1 Mae mater plant sydd ar goll o'r system a/neu nad ydynt yn hysbys i awdurdodau hefyd wedi'i godi yn Lloegr gan Gomisiynydd Plant Lloegr. Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Addysg wedi amlygu cysylltiadau rhwng addysg ddewisol yn y cartref a phlant sy'n colli addysg, ac yn 2021 cyhoeddodd ei adroddiad ar gryfhau addysg yn y cartref. Mae'r adroddiad yn argymell bod cofrestr statudol i adnabod plant nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn gwbl angenrheidiol ac y dylid bwrw ymlaen â hi. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd llywodraeth y DU gynlluniau i gyflwyno cofrestr statudol o blant 'nad ydynt yn yr ysgol', a gwnaethant ailddatgan yr ymrwymiad hwn ym mis Ionawr 2024. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy gynigion yn y Bil Llesiant Plant ac Ysgolion, a gyflwynwyd i Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r Bil hwn yn cynnwys cynlluniau i'w gwneud yn ofynnol i rieni gofrestru gyda'u hawdurdod lleol er mwyn galluogi pob awdurdod lleol i lunio 'cofrestr o blant nad ydynt mewn ysgol'. Mae diffiniad yr Adran Addysg o 'blant nad ydynt yn yr ysgol' yn cynnwys plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (sy'n hysbys, ac nad ydynt yn hysbys, i'r awdurdod lleol), pob plentyn sy'n cael *"addysg heblaw yn yr ysgol"* (neu "AHY" – gan gynnwys addysg heblaw yn yr ysgol a ddarperir gan yr awdurdod lleol), a phlant sy'n colli addysg.

3.2 Mae cynsail ar gyfer rheoliadau sy'n gofyn am gronfa o ddata sy'n ymwneud â phlant. Roedd Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Gwybodaeth) (Lloegr) 2007 yn nodi y dylid datblygu cronfa ddata genedlaethol o wybodaeth am blant. Enw'r gronfa ddata oedd "ContactPoint" ac fe'i lansiwyd yn 2009 fel cyfeiriadur ar-lein o wybodaeth sylfaenol am yr holl blant yn Lloegr y gallai gweithwyr proffesiynol rheng flaen (iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder ieuenctid) gael mynediad ati i gydgysylltu cymorth i blant. Diddymwyd y rheoliadau yn dilyn etholiad cyffredinol 2010 oherwydd pryderon cyffredinol gan lywodraeth glymblaid y DU ar y

pryd nad oedd yn gymesur cadw gwybodaeth am bob plentyn at ddibenion darparu cymorth i rai plant.

3.3 Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gynlluniau i gyflwyno ei ‘chynllun person a enwir’, drwy’r prif ddarpariaethau yn Neddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014. Roedd y cynllun person a enwir yn cynnig y byddai ‘person a enwir’ yn cael ei neilltuo i bob plentyn fel un pwynt cyswllt i hybu a diogelu ei lesiant.  Roedd yn cynnig helpu rhieni i gael mynediad at wasanaethau a nodi'r plant hynny sydd angen eu diogelu. Yn 2016, dyfarnodd y Goruchaf Lys fod y cynllun mewn perygl o dorri Erthygl 8 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol), er ei fod yn nodi bod y nodau’n gyfreithlon. Cafodd Llywodraeth yr Alban gyfarwyddyd i ddiwygio cynigion i sicrhau nad oeddent yn torri amodau’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn 2019, penderfynodd ddiddymu rhannau o’r Ddeddf wreiddiol a oedd yn cynnwys y gofynion person a enwir.

## 4. Ymgynghoriad blaenorol a rheoliadau drafft

4.1 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru bob amser wedi bod yn glir bod angen mwy o gymorth a phwerau arnynt er mwyn gallu cyflawni eu swyddogaethau addysg statudol o dan y Deddfau Addysg – yn enwedig y swyddogaethau hynny sy’n ymwneud â diogelu ac addysg ddewisol yn y cartref (mae’r dyletswyddau hyn wedi’u cynnwys yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ac adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, yn y drefn honno). Datblygwyd y cynigion cychwynnol ar ôl cyd-awduro â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithgorau rhanddeiliaid a gweithdai datblygu.

4.2 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos ar Reoliadau Deddf Plant 2004 Cronfa Ddata Plant sy’n Colli Addysg (Cymru) yn 2019 (“Rheoliadau 2020”) ac ar Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft (“y Rheoliadau Gwybodaeth”). Roedd y ddwy set o reoliadau drafft yn cefnogi'r un cynnig a byddent yn caniatáu i awdurdodau lleol groesgyfeirio gwybodaeth o fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol i nodi'n gywir y plant a allai fod yn blant sy’n colli addysg. Nid yw'r Rheoliadau Gwybodaeth o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn, na'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

4.3 Y gyntaf o’r ddwy brif ddarpariaeth yn rheoliadau drafft 2020 oedd gofyniad ar awdurdodau lleol i sefydlu cronfa ddata o’r holl blant sy’n byw yn ardal yr awdurdod lleol. Yr ail oedd gofyniad ar fyrddau iechyd lleol i ddarparu gwybodaeth am blant i’r awdurdod lleol perthnasol yn flynyddol. Diben rhannu’r data oedd er mwyn i awdurdodau lleol allu cyflawni eu dyletswydd adran 436A o dan Ddeddf Addysg 1996, sef gwneud trefniadau i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg addas, naill ai yn yr ysgol neu fel arall. O dan reoliadau drafft 2020, byddai’n ofynnol i fyrddau iechyd lleol gyflwyno’r wybodaeth ganlynol i’r awdurdod lleol, a byddai’r cyfan yn cael ei gynnwys yn y gronfa ddata:

- Enw’r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol)
- Cyfeiriad neu leoliad y plentyn— (a) cyfeiriad cyfredol y plentyn; (b) os nad oes unrhyw gyfeiriad cyfredol hysbys ar gyfer y plentyn, cyfeiriad hysbys diwethaf y plentyn; (c) datganiad nad oes cyfeiriad hysbys ar gyfer y plentyn, neu (d) pan fo’r plentyn wedi peidio â phreswylio’n arferol yn yr awdurdod lleol, dylid gwneud datganiad bod yr awdurdod lleol— (i) yn meddu ar wybodaeth bod y person yn bwriadu dychwelyd i ardal yr awdurdod lleol cyn pen tair blynedd i’r dyddiad y mae’r awdurdod yn ystyried bod y person wedi peidio â bod yn breswylydd fel arfer; (ii) yn medddu ar wybodaeth nad yw’r person yn bwriadu dychwelyd i ardal yr awdurdod lleol cyn pen cyfnod o dair blynedd o’r dyddiad y mae’r awdurdod lleol yn ystyried bod y person wedi peidio â bod yn breswylydd fel arfer; neu (iii) nad yw’r awdurdod lleol yn meddu ar unrhyw wybodaeth ynghylch a yw'r person yn bwriadu dychwelyd i ardal yr awdurdod lleol ai peidio
- Rhywedd y plentyn, neu os nad yw rhywedd y person wedi’i bennu, datganiad am yr effaith
- Dyddiad geni’r plentyn
- Y rhif a ddefnyddir i adnabod y plentyn yn y gronfa ddata
- Enw a manylion cyswllt unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn neu sy’n gofalu am y plentyn ar unrhyw adeg
- Pan fo’r plentyn yn bresennol mewn sefydliad addysgol, enw a manylion cyswllt y sefydliad, y dyddiad y dechreuodd y plentyn fynychu’r sefydliad, a (lle bo’n gymwys) y dyddiad y peidiodd y plentyn fynychu’r sefydliad
- Pan fo’r plentyn yn cael addysg heblaw mewn sefydliad addysgol, enw a manylion cyswllt y person neu’r corff sy’n darparu addysg o’r fath, y dyddiad y dechreuodd addysg o’r fath, a (lle bo’n gymwys) y dyddiad y bu’n bresennol
- Pan fo’r plentyn wedi marw, dyddiad marwolaeth y plentyn

4.4 Cafwyd 550 o ymatebion i’r ymgynghoriad yn 2012 gan awdurdodau lleol, teuluoedd yn ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref, a sefydliadau sy’n gyfrifol am addysg a chefnogi plant a phobl ifanc. Roedd y mwyafrif o’r teuluoedd sy’n addysgu yn y cartref ac asiantaethau sy’n cefnogi addysg ddewisol yn y cartref yn gwrthwynebu’r cynigion deddfwriaethol yn ymgynghoriadau 2012 a 2019. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol a sefydliadau sy’n gyfrifol am blant a phobl ifanc o blaid y cynigion hyn. Roedd ysgolion annibynnol hefyd o blaid y cynigion a nodir o dan y Rheoliadau Gwybodaeth, ac nid oeddent yn tynnu sylw at unrhyw broblemau. Mae crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad 2019 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru – Cronfeydd data addysg awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

## 5. Cwmpasu polisi ar gyfer cynigion diwygiedig

5.1 Ystyriodd Llywodraeth Cymru yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad ac adolygodd y cynigion ar gyfer y polisi. Yn benodol, rhoddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth

bellach i sail resymegol, cyfreithlondeb a chymesuredd y rheoliadau, gan mai dyma'r prif bryderon a godwyd yn rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.2 Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad lle daeth i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi methu yn ei dyletswydd i amddiffyn hawliau plant sy'n cael addysg yn y cartref. Dywedodd y Comisiynydd: "Yn ein barn ni, bu hefyd ddiffyg eglurder o ran y nodau polisi hynny. Y rheswm am hynny yw nad yw'r gwaith polisi bob amser wedi cyfeirio'n ôl yn benodol at argymhellion adolygiad ymarfer plant Dylan Seabridge, oedd yn argymell y dylai pob plentyn y dewisir eu haddysgu gartref gael eu gweld, ac y dylid siarad â nhw a chofnodi eu dymuniadau yn flynyddol."

5.3 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ac adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynigion newydd mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref. Cyhoeddwyd canllawiau statudol newydd ar addysg ddewisol yn y cartref ym mis Mai 2023, ochr yn ochr â llawlyfr rhieni ym mis Mehefin 2023. Nid yw'r canllawiau'n newid y gyfraith, ond maent yn ei hegluro mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref, ac mae ganddynt negeseuon clir i awdurdodau lleol a rhieni ynghylch pwysigrwydd 'gweld y plentyn' ac ymgysylltiad teuluoedd â'r awdurdod lleol. Er nad yw cyfarfodydd ag awdurdodau lleol yn orfodol, mae'r canllawiau'n egluro bod yn *rhaid* i'r awdurdod lleol allu canfod bod y plentyn yn cael addysg addas, ac mae'n argymell bod yr awdurdod lleol yn gweld y plentyn i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, a ddefnyddir i ddatblygu 'pecyn cymorth ehangach' ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, a phenodi swyddogion awdurdod lleol ychwanegol i wella'r capasiti presennol a helpu i sefydlu'r canllawiau newydd.

5.4 Mae gofyniad ar awdurdodau lleol o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004 ("Deddf 2004") i wneud trefniadau i hybu cydweithrediad rhwng partneriaid perthnasol ac unrhyw berson neu gorff sy'n gyfrifol am blant yn eu hardal. Bydd Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru) 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu a phoblogi cronfa ddata o'r holl blant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal a allai fod yn colli addysg, gan gynnwys pan nad yw'r awdurdod lleol wedi gallu canfod bod y plentyn yn cael addysg addas. Yn yr un modd â'r cynigion blaenorol, bydd data iechyd yn cael ei ddefnyddio i helpu awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt yn gwybod amdanynt, ac i sicrhau eu bod yn cael addysg addas.

## Cam dau: Disgrifio'r llif gwybodaeth

**Nid Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data; ni fydd yn cyrchu'r data nac yn cael ei chynnwys yn y broses ddata. Mae'r adran hon wedi'i chynnwys er cyflawnder.**

**6. Rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner**

6.1 Dylai fod gan awdurdodau lleol brotocolau rhannu gwybodaeth eisoes ar waith sy’n egluro o dan ba amgylchiadau y gellir ac y dylid rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau sy’n cefnogi plant. Fodd bynnag, nid yw diffyg cytundeb neu gydsyniad ar gyfer rhannu gwybodaeth benodol yn golygu na ellir rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau pan fo lles plentyn mewn perygl. Mae’n briodol o hyd i rannu gwybodaeth bersonol heb dorri Deddf Diogelu Data 2018 ar yr amod bod gwneud hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni swyddogaethau statudol.

6.2 Mae pob un o’r 22 awdurdod lleol wedi arwyddo Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (y cytundeb). Mae’r cytundeb yn darparu templedi ar gyfer cytundebau rhannu data fel protocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data i’w defnyddio gan awdurdodau lleol.

6.3 Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg addas, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru a Lloegr. Yn ogystal â rhannu gwybodaeth yng Nghymru, fel sy’n ofynnol gan y rheoliadau, disgwylir yn barod i awdurdodau lleol Cymru ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol yn Lloegr er mwyn sicrhau nad yw plant sy'n symud ar draws y ffin yn colli addysg. Mae hyn wedi'i nodi yn y canllawiau statudol ar blant sy’n colli addysg.

**7. Data a gedwir, hyd cadw data**

7.1 Mewn perthynas ag is-set yn unig o’r wybodaeth a drosglwyddir i awdurdodau lleol sy’n cael ei defnyddio neu sy’n ofynnol i gyflawni amcan y polisi, nid yw byrddau iechyd lleol yn cadw data sy’n ymwneud ag addysg plentyn, ac nid oes ganddynt ychwaith fecanwaith ar gyfer nodi pa blant nad ydynt yn cael addysg. Felly nid yw'n bosibl gosod gofyniad ar weithwyr iechyd proffesiynol i drosglwyddo gwybodaeth am blant sy'n colli addysg yn unig. Yn ogystal, nid cyfrifoldeb byrddau iechyd lleol yw gwneud dyfarniadau na phenderfyniadau am addasrwydd addysg plant gan mai dyletswydd yr awdurdodau lleol yw hon (adran 436A o Ddeddf Addysg 2002).

7.2 Mae awdurdodau lleol yn gwybod am y mwyafrif o’r plant, ac eisoes yn meddu ar wybodaeth am blant yn yr ysgol, addysg heblaw yn yr ysgol neu addysg ddewisol yn y cartref (ar yr amod bod y rhiant wedi hysbysu’r awdurdod lleol eu bod yn addysgu eu plentyn yn y cartref). Mae angen trosglwyddo gwybodaeth am bob plentyn a) oherwydd anallu byrddau iechyd lleol i wneud dyfarniad ynghylch addasrwydd addysg, b) i leihau’r risg nad yw plant yn mynd ar goll, ac c) i awdurdodau lleol gymharu setiau data yn effeithiol a nodi plant nad ydynt yn colli addysg ond sydd wedi symud i ardal awdurdod lleol arall. Bydd gwybodaeth sylfaenol am bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael ei throsglwyddo i'r awdurdod lleol, a gall yr awdurdod lleol wedyn gynnal yr ymarfer cymharu.

7.3 Dim ond gwybodaeth o fyrddau iechyd lleol (sy’n gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel darparwr neu gomisiynydd gwasanaethau gofal sylfaenol) a meddygon teulu yng Nghymru fydd yn cael ei throsglwyddo. Mae hyn yn golygu na fydd gwybodaeth am blant sy'n byw yng Nghymru, ond sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yn Lloegr, yn cael ei chynnwys yn y rheoliadau. Fodd bynnag, mae’n werth nodi nad yw pob practis meddyg teulu yn derbyn cleifion y tu allan i’r ardal – polisi a chapasiti practisau meddygon teulu unigol sy’n penderfynu hyn. Yn ogystal, mae practisau meddygon teulu eraill yn derbyn cofrestriadau dros dro yn unig ar gyfer cleifion o’r tu allan i'r ardal.

7.4 Bydd nifer y testunau data (plant) o fewn y trosglwyddiad data yn cael ei gyfyngu i nifer gwirioneddol y plant sy’n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw fel sydd ar gael i’r bwrdd iechyd lleol. Y rheolyddion data ar gyfer yr wybodaeth fydd contractwyr meddygol cyffredinol (meddygon teulu) a byrddau iechyd lleol. Er mai gwybodaeth cofrestru cleifion gyda meddygon teulu yw'r wybodaeth sydd ei hangen, mae'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chadw hefyd gan fyrddau iechyd lleol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno gan y bwrdd iechyd lleol i’r awdurdod lleol perthnasol (yr awdurdod lleol lle mae’r plentyn yn preswylio fel arfer). Nid oes unrhyw gamau gweithredu penodol i'r meddyg teulu eu cymryd ac, er bod y rhwymedigaeth i ddatgelu hefyd yn cael ei gosod ar feddygon teulu, mewn gwirionedd y byrddau iechyd lleol fydd yn datgelu'r wybodaeth i'r awdurdod lleol. Dylid darllen unrhyw gyfeiriadau yn y papur hwn at y byrddau iechyd lleol yn y cyd-destun hwnnw.

7.5 Mae’r rheoliadau’n pennu swm y data ar gyfer pob awdurdod lleol, a fydd yn gyfyngedig (yn unol â’r egwyddor lleihau data) i’r hyn sy’n ymwneud â phlant a allai fod yn colli addysg; hynny yw, nid ydynt ar y gofrestr mewn ysgol a gynhelir, ysgol annibynnol, na darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, neu ei bod yn hysbys eu bod yn cael eu haddysgu gartref ac y mae'r awdurdod lleol yn ystyried nad ydynt yn cael addysg addas. Bydd yr wybodaeth am blant sy’n colli addysg yn wybodaeth sylfaenol, anghlinigol. Mae swyddogion wedi trafod y gofynion â swyddogion iechyd, ac wedi ymgynghori â phartneriaethau cydwasanaethau’r GIG ar ymarferoldeb/argaeledd y data hwn ac ymarferoldeb darparu pob set ddata yn ddiogel i’r awdurdod lleol perthnasol. Mae partneriaethau cydwasanaethau’r GIG yn rheoli data ar gyfer y byrddau iechyd lleol, ac felly nhw yw’r prosesydd data. Maent wedi cadarnhau bod yr wybodaeth a nodir yn y rheoliadau drafft ar gael iddynt ac y gellir ei throsglwyddo, wedi’i rhannu fesul ardal awdurdod lleol.

7.6 Mae’r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol ddatgelu’r canlynol:

- enw’r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol)

- o ran cyfeiriad neu leoliad y plentyn –
  - cyfeiriad cyfredol a chod post y plentyn
  - os nad oes unrhyw gyfeiriad cyfredol hysbys ar gyfer y plentyn ar unrhyw adeg, cyfeiriad hysbys diwethaf y plentyn
  - datganiad nad oes cyfeiriad hysbys ar gyfer y plentyn
  - dyddiad geni'r plentyn

7.7 Mae'r rheoliadau'n nodi mai dim ond gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant a allai fod yn colli addysg, h.y. nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu addysg heblaw yn yr ysgol, neu eu bod mewn addysg ddewisol yn y cartref ac mae'r awdurdod lleol wedi barnu bod yr addysg yn anaddas, a fydd yn cael ei chadw ar y gronfa ddata plant sy'n colli addysg. Mae'r wybodaeth am blant ar y gofrestr mewn ysgol, addysg heblaw yn yr ysgol ac addysg ddewisol yn y cartref (y pennir eu bod yn cael addysg addas gan yr awdurdod lleol) eisoes yn cael ei chadw gan yr awdurdod lleol a dim ond i groesgyfeirio'r wybodaeth yn erbyn yr wybodaeth a ddarperir gan fyrddau iechyd lleol y caiff ei defnyddio. Os gellir paru gwybodaeth am blant yn y set ddata iechyd â data addysg, caiff yr enw ei dynnu oddi ar y rhestr ac ni chaiff ei gynnwys yn y gronfa ddata. Bydd maint daearyddol y prosesu yn ymestyn i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

7.8 Mae'r rheoliadau'n pennu (o dan reoliadau 6-10) yr holl amgylchiadau lle y dylid dileu enw plentyn o'r gronfa ddata. Ym mhob achos, bydd enw'r plentyn yn cael ei ddileu o'r gronfa ddata unwaith y bydd yr awdurdod lleol wedi adnabod y plentyn ac wedi penderfynu ei fod yn cael addysg addas. Er mwyn sicrhau na chedwir data ar y gronfa ddata am gyfnod hwy nag sydd angen, caiff y canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg eu hadolygu i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddileu'r wybodaeth cyn pen 30 diwrnod o benderfynu ar addasrwydd y ddarpariaeth addysg.

7.9 Hyd y gweithgaredd prosesu fydd unwaith y flwyddyn, gan alinio â'r adroddiad ar addysg heblaw yn yr ysgol a'r data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gyflwynir gan ysgolion i awdurdodau lleol.

## 8. Sut bydd y data'n cael ei gasglu, ei gadw, ei ddefnyddio a'i gyrchu

8.1 Nid Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data; mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y trefniadau hyn yn fanylach. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu cronfa ddata o blant sy'n colli addysg a fydd yn cynnwys yr wybodaeth mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol ac a allai fod yn colli addysg. Byddai'r rheoliadau drafft hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol gyflwyno gwybodaeth anghlinigol sylfaenol am blant o fewn y bwrdd iechyd lleol i'r awdurdod lleol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol groesgyfeirio'r data iechyd â data addysg cyfredol at ddibenion dileu gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant y gwyddys eu bod yn cael addysg addas. Pe bai'n cael ei gweithredu, byddai'r gronfa ddata yn is-set o'r set ddata wreiddiol i gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u

cynnwys yn CYBLD ac nad ydynt ar gofrestr ysgol annibynnol neu addysg heblaw yn yr ysgol, neu'r rhai sydd mewn addysg ddewisol yn y cartref ac y gwyddys eu bod yn cael addysg addas. Mae Ffigur 1 yn dangos y llif data rhwng y rheolyddion data.

8.2 Byddai'r data canlynol yn cael ei gasglu:

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth a bennir yn ymwneud â phlentyn sy'n preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ac sydd ar gofrestr ysgol a gynhelir, fel y nodir yn y data CYBLD sydd wedi'i gipio. | Data sydd eisoes wedi'i gasglu o ysgolion ac sy'n cael ei gadw gan awdurdodau lleol (CYBLD). |
| Gwybodaeth a nodir yn ymwneud â phlentyn sy'n preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ac sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd mewn ysgol annibynnol gofrestredig ar yr un dyddiad y mae'r data CYBLD wedi'i gipio. | Data sydd wedi'i gyflwyno i awdurdodau lleol o ysgolion annibynnol o dan y 'Rheoliadau Gwybodaeth'.<br>Yr ysgolion yw'r rheolyddion data. |
| Gwybodaeth a bennir mewn perthynas â phlentyn sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw sydd ar gael i'r bwrdd iechyd lleol. | Data sydd wedi'i gyflwyno i awdurdodau lleol gan fyrddau iechyd lleol. Meddygon teulu a byrddau iechyd lleol yw'r rheolyddion data. |

8.3 Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu cronfa ddata o blant sy'n colli addysg a fydd yn cynnwys yr wybodaeth mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd yr holl wybodaeth yn y gronfa ddata yn cael ei rheoli yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a'r protocolau trin/cadw data, ac amserlenni cadw a gwaredu pob awdurdod lleol.

8.4 Bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio gan yr awdurdod lleol yn unig er mwyn arfer ei rwymedigaethau statudol a'i swyddogaethau a restrir isod:


(a) Rhan 6 (derbyniadau i ysgolion, presenoldeb yn yr ysgol a thaliadau ysgolion) o Ddeddf Addysg 1996
(b) Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002
(c) Rhan 2 (anghenion dysgu ychwanegol) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

## 9. Sut bydd y data yn cael ei brosesu?

9.1 Nid yw'r rheoliadau drafft yn nodi sut y bydd y data yn cael ei brosesu, a dylai'r rheolyddion data ystyried hyn. **Y byrddau iechyd lleol a'r awdurdodau lleol yw'r rheolyddion data a nhw fydd yn gyfrifol am sefydlu'r broses.** Fodd

bynnag, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael gwybodaeth gan ysgolion a byddai'n ofynnol iddynt brosesu'r data trwy Fenter Cyfnewid Data Cymru (DEWi). DEWi yw'r porth diogel ar gyfer trosglwyddo data rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae data sy'n ymwneud â phlant ar y gofrestr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn cael ei gipio trwy'r broses o gasglu data CYBLD. Mae data ar addysg heblaw yn yr ysgol ac addysg ddewisol yn y cartref hefyd ar gael yn yr awdurdod lleol ac yn amodol ar brosesau pob awdurdod lleol unigol. Bydd awdurdodau lleol yn croesgyfeirio'r data addysg â'r wybodaeth a gafwyd gan fyrddau iechyd lleol, er mwyn pennu pa blant nad ydynt yn mynd i'r ysgol, nad ydynt yn cael addysg heblaw yn yr ysgol, neu sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried nad ydynt yn cael addysg addas. Mae trafodaethau wedi'u cynnal â phartneriaethau cydwasanaethau'r GIG ac arweinwyr digidol mewn awdurdodau lleol er mwyn cwblhau trefniadau rhannu data.

Ffigur 1.




9.2 <u>Cwmpas ac amlder y prosesu:</u> Bydd y prosesu yn cynnwys cymharu data o'r ffynonellau a ddisgrifir ym mharagraff 8.2 i helpu i nodi plant y mae'n bosibl eu bod yn colli addysg. Os daw awdurdod lleol yn ymwybodol bod plentyn yn breswylydd fel arfer, neu'n debygol o ddod yn breswylydd fel arfer mewn

awdurdod lleol arall (“yr awdurdod lleol sy’n derbyn”), yna rhaid iddo hysbysu’r awdurdod lleol sy’n derbyn a throsglwyddo cofnod addysg y plentyn hwnnw.

9.3 Bydd y data a gedwir ar y gronfa ddata yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n gymesur ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod plant o oedran addysg orfodol yn cael addysg addas. Ni fydd y data’n cael ei rannu fel mater o drefn ac, os rhennir data, bydd angen diben, a nod cyfreithlon, megis sicrhau llesiant plentyn neu berson ifanc.

9.4 Mae'r rheoliadau drafft yn nodi y cynhelir y prosesu unwaith y flwyddyn. Mae'r prosesu yn cyd-fynd â phrosesu a chyflwyno'r data CYBLD yn flynyddol, er mwyn sicrhau bod y broses o gipio data mor gywir â phosibl ar gyfer cymharu setiau data. Mae’r data yn ‘giplun’ o’r wybodaeth ar y pryd ac ni fydd yn cael ei ddiweddaru pan fydd gwybodaeth newydd ar gael,h.y. ni fydd yn gronfa ddata ‘fyw’ yn hyn o beth.

9.5 Sensitifrwydd: Dangosir rhestr o'r eitemau o ddata personol ym mharagraff 2.30 uchod. Nid yw’r rhestr yn cynnwys unrhyw ddata categori arbennig fel y’i diffinnir o dan GDPR y DU.

9.6 Am ba mor hir fydd yr wybodaeth yn cael ei chadw?: Bydd yr holl wybodaeth yn y gronfa ddata yn cael ei rheoli yn unol ag ‘atodlen cadw a gwaredu’ pob awdurdod lleol. Mae’r gofynion ar gyfer tynnu enw plentyn wedi’u cynnwys yn y rheoliadau.

9.7 Pwy fydd perchennog yr wybodaeth?: Pob un o’r saith awdurdod lleol peilot yng Nghymru fydd y rheolyddion data ar gyfer eu cronfa ddata o blant sy’n colli addysg a byddant yn gyfrifol am y gronfa ddata sy’n ymwneud ag ardal eu hawdurdod lleol.

9.8 Cyd-destun y prosesu: Gan ganolbwyntio ar nod cyffredinol dibenion addysg, diben y prosesu yw cynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â dyletswyddau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Bydd yn galluogi awdurdodau lleol i grynhoi cronfa ddata weddol gynhwysfawr o blant a allai fod yn colli addysg neu nad ydynt yn cael addysg addas.

9.9 Ffynhonnell y data: Mae gan y data ddwy brif ffynhonnell:

- Awdurdodau lleol
- Byrddau iechyd lleol / meddygon teulu

**Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyrchu’r data nac yn cael ei chynnwys yn y broses o brosesu data.**

9.10 <u>I ba raddau y mae unigolion yn debygol o ddisgwyl y prosesu:</u> Ni fydd unigolion (testunau'r data) yn ymwybodol o'r prosesu. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a rennir eisoes yn cael ei chadw gan awdurdodau lleol. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei phrosesu at ddibenion cymharu, ond bydd y mwyafrif yn cael ei dileu. Dim ond gwybodaeth am blant nad ydynt yn yr ysgol, nad ydynt yn cael addysg heblaw yn yr ysgol, neu sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ac mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu nad ydynt yn cael addysg addas ac effeithlon a gedwir.

9.11 <u>P'un a ydynt yn cynnwys plant neu bobl agored i niwed eraill:</u> Mae prosesu'r math hwn o ddata yn faen prawf oherwydd yr anghydbwysedd grym cynyddol rhwng testunau'r data a'r proseswyr data. Yn yr adran hon, ystyriwyd yr unigolion hynny na allant gydsynio, neu wrthwynebu, prosesu eu data neu arfer eu hawliau yn hawdd. Mae testunau data sy'n agored i niwed yn cynnwys plant oherwydd ystyrir eu bod yn destunau data na allant wrthwynebu neu gydsynio yn fwriadol nac yn feddylgar i'w data gael ei brosesu.

9.12 Mae profiad lleol a chenedlaethol wedi nodi nifer o ffactorau risg a allai lesteirio neu atal y broses o nodi rhai grwpiau sy'n agored i niwed ac ymgysylltu â nhw. Er mai dim ond nifer gymharol fach o blant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl, yn aml mae ganddynt anghenion cymhleth o'r cychwyn cyntaf oherwydd dynameg teulu anodd, neu ffactorau cymdeithasol neu ffordd o fyw, a gallai pob un o'r pethau hyn gyfrannu at y broses o dynnu'n ôl a methiant i wneud unrhyw bontio llwyddiannus. Efallai eu bod wedi profi rhai digwyddiadau bywyd penodol sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o fynd ar goll o'r system addysg ac yn wynebu rhwystrau anoddach o ran ailymgysylltu â darpariaeth addysgol – canllawiau-statudol-helpu-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg.pdf (llyw.cymru).

9.13 Gall y data a gyflwynir i'r awdurdod lleol gynnwys plant a allai fod yn agored i niwed, megis:

- Plant sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid
- Plant o deuluoedd digartref sy'n byw efallai mewn llety dros dro neu wely a brecwast
- Plant sy'n byw mewn llochesi ar gyfer menywod
- Plant o deuluoedd sy'n dianc rhag trais domestig
- Plant o deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Plant yn y system gofal

9.14 Mae'r categorïau uchod wedi'u nodi fel grwpiau sy'n fwy tebygol na grwpiau eraill o blant o fod yn colli addysg oherwydd eu statws dros dro posibl. Mae gan bob rhanbarth diogelu (sy'n cwmpasu pob awdurdod lleol) yng Nghymru gynllun gweithredu rhanbarthol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015). Bydd y rhanbarth yn ystyried yr holl fesurau diogelu sy'n ymwneud â phlant ac yn darparu canllawiau a chynlluniau gweithredu i awdurdodau lleol.

Mae’n rhaid i bob swyddog o’r awdurdod lleol ddilyn hyfforddiant Lefel 1 ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys yr holl staff mewn ysgolion, a disgwylir i nifer gael eu hyfforddi i ‘Gofyn a Gweithredu’ Lefel 2. Mae hyn yn rhoi'r ymwybyddiaeth a sgiliau perthnasol i weithwyr proffesiynol wrth weithio gyda'r grŵp agored i niwed hwn a'i ddeall.

9.15 Grwpiau agored i niwed eraill i’w hystyried:

- unigolion sydd â phroblemau meddygol neu emosiynol hirdymor
- gofalwyr ifanc
- plant sydd â rhieni â phroblemau iechyd meddwl
- plant sydd â rhieni ag anawsterau dysgu
- unigolion yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau
- unigolion a oedd wedi cael eu haddysgu o'r blaen yn y sector annibynnol ac sydd wedi'u gwahardd neu wedi’u tynnu'n ôl

## Cam tri: Cydymffurfedd

*Yn unol â'r gyfraith*

10.1 Byddai'r cynigion yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, sef y rheoliadau drafft a fyddai'n cael eu gwneud o dan bŵer mewn deddfwriaeth bresennol, sef adran 29 o Ddeddf Plant 2004. Mae adran 29 yn darparu pŵer i sefydlu a gweithredu cronfa ddata, at ddiben trefniadau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (ymhlith dibenion eraill nad ydynt yn berthnasol i'r rheoliadau). Mae adran 175 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hybu lles plant.

10.2 Mae ymgynghoriadau wedi'u cynnal, sydd wedi cynnwys rheoliadau drafft. Mae dau ymgynghoriad 12 wythnos ar wahân wedi'u cynnal i alluogi'r unigolion y mae'n bosibl yr effeithir arnynt i ddweud eu dweud. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf yn 2019, ac agorodd yr ail ymgynghoriad 12 wythnos ar 31 Ionawr 2024 a daeth i ben ar 25 Ebrill 2024. Ers yr ymgynghoriad cyntaf, mae'r cwmpas wedi'i leihau'n sylweddol, ac mae'r cynnig yn awr, yn y rheoliadau drafft, yn darparu na fyddai'r gronfa ddata ond yn cynnwys plant a allai fod yn colli addysg, ac y byddai darpariaethau cadw a dinistrio cadarn yn y rheoliadau drafft. Mae gwerthusiad cryno o'r ymatebion ar gael yma: Cronfa ddata plant sy'n colli addysg | LLYW.CYMRU.

10.3 Ni ddylid ystyried y cynigion deddfwriaethol cyfredol fel cynigion ar eu pen eu hunain. Yn hytrach, dylid edrych ar y rheoliadau drafft ochr yn ochr â'r canllawiau statudol sydd ar waith. Cyhoeddwyd y 'canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg' am y tro cyntaf yn 2010, a chawsant eu diweddaru yn 2017. Maent yn nodi'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i nodi plant a allai fod yn colli addysg, a'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd unwaith y bydd plentyn yn cael ei adnabod. Mae'r canllawiau'n nodi sut y gall rhieni a gofalwyr atal eu plentyn rhag cael ei ddosbarthu fel plentyn sy'n colli addysg. Atgyfnerthir hyn ymhellach yn y canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref.

10.4 Gwneir y rheoliadau o dan bwerau presennol o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004 i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â sefydlu a gweithredu unrhyw gronfa ddata neu gronfeydd data (at ddibenion trefniadau o dan adran 25 neu 28 o'r Ddeddf Plant, neu o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002). Nod y gronfa ddata yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg. Y dyletswyddau penodol a nodir yn y rheoliadau yw'r canlynol:

1. Rhan 6 (derbyniadau i ysgolion, presenoldeb yn yr ysgol a thaliadau ysgolion) o Ddeddf Addysg 1996
2. Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â lles plant)
3. Rhan 2 (anghenion dysgu ychwanegol) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

10.5 Mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hybu lles plant. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn arfer rhesymol o'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol rhannu gwybodaeth i nodi plant a allai fod yn colli addysg, gan gynnwys y plant hynny sy'n cael eu haddysg yn y cartref ond pan nad yw'r awdurdod lleol wedi gallu penderfynu eu bod yn cael addysg addas, gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu lles plant, ac y byddai hyn yn dod o fewn cwmpas adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

10.6 Nid yw diogelwch a lles wedi'u diffinio yn y Deddfau addysg, ond mae'r berthynas rhwng plant sy'n colli addysg a phryderon ynghylch diogelu/lles wedi'i hen sefydlu, ac fe'i diffinnir mewn canllawiau a gyhoeddwyd o dan Ddeddfau addysg 1996 a 2002. Mae'r canllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, yn diffinio diogelu a hybu lles plant fel amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, atal unrhyw beth sy'n amharu ar iechyd neu ddatblygiad, a sicrhau eu bod yn cael gofal diogel ac effeithiol i'w galluogi i gael y cyfleoedd bywyd gorau posibl. Diffinnir datblygiad fel "datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol".

10.7 Mae'r canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg yn nodi, os yw plentyn neu berson ifanc yn cael addysg, nid yn unig dylai gael y cyfle i gyrraedd ei botensial, ond dylai hefyd fod mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i ddiogelu a hybu ei lesiant. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll o'r system addysg, gallai fod mewn perygl o niwed arwyddocaol.

10.8 Mae adran 436A o Ddeddf 1996 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau i nodi plant yn ei ardal nad ydynt yn cael addysg addas ac i roi sylw i ganllawiau gan Weinidogion Cymru wrth arfer y ddyletswydd honno. Mae angen ystyried adran 436A o Ddeddf 1996 yng nghyd-destun adran 7 o Ddeddf 1996, sy'n darparu bod rhaid i riant beri i'w blentyn gael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i oedran, gallu, dawn ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod gan y plentyn.

*Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)*

10.9 *Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu fel a ganlyn:*

*1. "Mae gan bawb yr hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth.*

*2. Ni chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon oni bai fod hynny'n digwydd yn unol â'r gyfraith a'i fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch gwladol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, er mwyn atal anhrefn neu drosedd, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, neu er mwyn diogelu hawliau neu ryddid pobl eraill."*

10.10 Gall bywyd preifat gwmpasu agweddau lluosog ar hunaniaeth person, ac mae'r berthynas rhwng rhieni a phlant yn cael ei hamddiffyn gan fywyd teuluol. Mae bywyd teuluol yn cwmpasu amrywiaeth eang o hawliau a chyfrifoldebau rhieni o ran gofal a magwraeth plant dan oed. Mae diogelu data personol yn hanfodol bwysig i hawl person i barch at ei fywyd preifat a theuluol.

10.11 Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru) ("y rheoliadau drafft") yn cynnwys rhannu swm cyfyngedig o wybodaeth, a byddent yn grymuso awdurdodau lleol i grynhoi cronfa ddata o gategori cul o blant: y rhai sy'n preswylio fel arfer yn eu hardal, nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig, ac nad ydynt, neu efallai nad ydynt, yn cael addysg addas.

*10.12* Caniateir unrhyw ymyrraeth ag Erthygl 8, oherwydd ei bod yn hawl amodol, os yw (a) yn unol â'r gyfraith, (b) er mwyn ceisio cyflawni nod cyfreithlon, ac (c) yn gymesur.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

10.13 O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r cynigion hyn yn cefnogi'r nod o Gymru fwy cyfartal, sef cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

10.14 Gallai plant nad ydynt eisoes yn hysbys i awdurdodau lleol mewn unrhyw set ddata gyfredol gael eu nodi fel plant sy'n colli addysg a byddent yn ddarostyngedig i ddyletswyddau awdurdod lleol fel y'u diffinnir yn 'Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg'.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)*

10.15 Un o'r prif ffactorau sy'n cefnogi'r cynigion yw ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth Cymru i hawliau plant yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Ers i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ddod i rym, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru drwy greu diwylliant sy'n parchu, hyrwyddo a chynnal hawliau plant. Mae cynigion y gronfa ddata wedi'u diwygio i liniaru pryderon wrth flaenoriaethu hawliau addysg a lles plant, gan gynnwys eu hawliau i addysg a budd pennaf y plentyn.

*Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)*

10.16 Rhoddwyd ystyriaeth i'r canllawiau ar GDPR y DU a phlant, ac a yw'r cynigion yn cydymffurfio â GDPR, ac yn benodol y darpariaethau sy'n ymwneud â phroffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd. Yn yr un modd ag adrannau 4.6–4.26, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gymesuredd, a oes nod cyfreithlon, ac a yw'r cynigion er budd pennaf y plentyn, yn unol ag Erthygl 3 o CCUHP.

## Cam pedwar: Asesu angenrheidrwydd a chymesuredd

11.1 Mae'r cynigion yn angenrheidiol oherwydd diffyg system amgen ac oherwydd penderfynwyd mai rhannu gwybodaeth sylfaenol rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yw'r ffordd fwyaf effeithiol a chywir o adnabod plant sy'n colli addysg. Cefnogir yr asesiad hwn gan awdurdodau lleol a chan ddau ymarfer data ar wahân (y cyfeirir atynt ym mharagraff 13.8 isod) a oedd yn defnyddio cronfa ddata SAIL a data cyfanredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar blant sy'n colli addysg. Mae'r adran gefndir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data hwn (adran 2) hefyd yn berthnasol i'r angen am y cynigion, ac yn darparu cyd-destun ychwanegol. Mae adran 13 yn rhoi gwybodaeth am y dulliau amgen a ystyriwyd i gyflawni amcan y polisi hwn.

### 12. Wrth geisio nod cyfreithlon

12.1 O ran penderfynu a yw ymyrraeth o'r fath er mwyn ceisio cyflawni nod cyfreithlon, rhaid iddo fod er budd yr hyn a nodir yn Erthygl 8(2) o'r Confensiwn Ewropeiadd ar Hawliau Dynol. Ystyrir bod y rheoliadau drafft yn angenrheidiol i ddiogelu hawliau eraill, sef plant nad ydynt yn cael addysg addas, gan nodi'n benodol Erthygl 2 o'r Protocol Cyntaf ('Ni wrthodir hawl i addysg i neb') ac Erthyglau 28 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (mynediad i addysg a nodau addysg). Byddai'r rheoliadau drafft yn darparu mecanwaith i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â phlant nad ydynt yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd.

12.2 Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw ffordd o adnabod plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol yn yr awdurdod lleol hwnnw, i benderfynu a yw plant o'r fath yn cael addysg addas, gan mai dim ond gofyniad ar rieni i hysbysu'r awdurdod lleol o'u bwriad i dynnu plentyn allan o'r ysgol i gael ei addysgu yn y cartref. Nid oes rhaid i rieni roi gwybod i'r awdurdod lleol os ydynt yn penderfynu y bydd eu plentyn yn cael ei addysgu gartref cyn iddynt fod yn y system ysgolion. *Er bod llawer o rieni yn gweithio gyda'r awdurdod lleol ac yn gwneud eu hunain / eu plant yn hysbys, mae yna blant nad yw'r awdurdod lleol yn gwybod amdanynt (amcangyfrifon ym mharagraff 13.8) ac felly nid yw'r awdurdod lleol yn gwybod a yw'r plentyn hwnnw'n cael addysg addas ai peidio.* Mae angen y mesur er mwyn sicrhau bod plant o'r fath yn cael eu hadnabod i alluogi'r awdurdod lleol i fodloni ei hun, fel sy'n ofynnol gan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, bod plant o'r fath yn cael addysg addas ac, os nad ydynt, i alluogi'r awdurdodau lleol i gymryd y camau angenrheidiol i amddiffyn hawliau plant nad ydynt yn cael addysg addas. Gall fod buddion economaidd neu fuddion iechyd hefyd.

## 13. Cymesuredd

13.1 O ran penderfynu a yw ymyrraeth o'r fath yn "gymesur", mae'r nod cyfreithlon, fel yr eglurir uchod, yn un digon pwysig i gyfiawnhau unrhyw gyfyngiad posibl ar hawl a warchodir (rhannu gwybodaeth), ac mae'r mesur yn gysylltiedig â'r nod hwnnw. Yn bwysig ddigon, mae nifer o fesurau diogelu y byddai'r rheoliadau drafft yn darparu ar eu cyfer, ac a amlinellir ymhellach o dan yr egwyddorion diogelu data (a nodir isod). Mae'r mesurau diogelu hyn yn cynnwys cadw enwau plant a allai fod yn colli addysg yn y gronfa ddata yn unig, yn hytrach na phob plentyn o dan reoliadau drafft 2020, lleihau'r meysydd data, cyfyngu ar fynediad, a chyfyngu ar y defnydd o'r data.

13.2 Byddai cronfa ddata'r awdurdod lleol ond yn cynnwys gwybodaeth am is-set o blant, sef y plant hynny sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig, ac nad ydynt, neu efallai nad ydynt, yn cael addysg addas, yn hytrach na'r holl blant fel y cyfryw. Yn ogystal, byddai'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gronfa ddata yn gyfyngedig ac fel y rhagnodir yn yr atodlen (enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn, ynghyd â holl rieni'r plentyn a phawb sy'n darparu addysg i'r plentyn). Diffinnir "rhiant" yn y rheoliadau drafft ac mae'n golygu unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn (o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Plant 1989(3)) neu sy'n gofalu am y plentyn ar unrhyw adeg. Byddai'r rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys rhwymedigaeth ar awdurdod lleol i gymryd camau rhesymol i gywiro unrhyw anghywirdeb neu gwblhau unrhyw gofnod a allai fod yn anghyflawn.

13.3 Byddai'r gallu i gael mynediad i'r gronfa ddata, fel y rhagnodir yn y rheoliadau drafft, hefyd yn gyfyngedig. Dim ond personau a gyflogir gan yr awdurdod lleol wrth arfer eu swyddogaethau, a'r swyddogaethau hynny a nodir, fyddai'n gallu cael mynediad i'r gronfa ddata. Y swyddogaethau, fel y'u rhagnodir yn y rheoliadau drafft, fyddai'r rhai a bennir yn Rhan 6 o Ddeddf Addysg 1996, adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, a Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Byddai angen i weithwyr yr awdurdodau lleol hyn gael mynediad i ddarllen y gronfa ddata er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o wybodaeth ar draws adrannau, er mwyn adnabod y plentyn yn y gronfa ddata a darparu'r cymorth priodol fel y gellid tynnu enw'r plentyn o'r gronfa ddata; dyma'r nod cyffredinol. Gellir adnabod a rhoi cymorth trwy'r tîm addysg ddewisol yn y cartref, y tîm diogelu, lles addysg, neu swyddogion ADY/cynhwysiant.

13.4 Unwaith y nodir plentyn a allai fod yn colli addysg, byddai'r awdurdod lleol yn gwneud ymholiadau anffurfiol â'r teulu i benderfynu a yw'r plentyn yn colli addysg. Byddai gofyn i rieni ddarparu gwybodaeth i ddangos bod y plentyn yn cael addysg addas a rhoddir gwybod iddynt am y camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn tynnu enw'r plentyn o'r gronfa ddata o blant sy'n colli addysg. Byddai'r ymholiadau'n amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol, ond byddai'r teulu bob amser yn cael sawl cyfle i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r awdurdod lleol. Byddai'r broses hon yn cyd-fynd ag adran 7.33 o'r canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg, sy'n darparu'r canlynol: "*Mae Adrannau 437 i 443 o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymyrryd lle yr ymddengys nad yw plentyn yn cael addysg addas. Mae cyfraith achos yn datgan y gall awdurdod lleol wneud ymholiadau anffurfiol ynghylch rhieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref er mwyn sicrhau bod addysg addas yn cael ei darparu."*

13.5 O dan adran 7.34 o'r canllawiau:*"Dylai awdurdodau addysg geisio meithrin cydberthnasau effeithiol a chadw cysylltiad rheolaidd ag addysgwyr yn y cartref er mwyn diogelu buddiannau addysgol a lles plant a phobl ifanc. Bydd gwneud hynny yn sicrhau bod rhieni yn gallu cael gafael ar unrhyw gymorth sydd ar gael ac yn galluogi awdurdodau i ddeall darpariaeth addysgol y rhieni."*

13.6 Gallai peidio â rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r awdurdod lleol olygu na fydd yr awdurdod lleol yn gallu penderfynu bod y plentyn yn cael addysg addas. Yn yr achos hwn, byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried cyhoeddi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant gofrestru'r plentyn yn yr ysgol a enwir yn y gorchymyn. Fel yr eglurir o dan y canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg, mae Gorchymyn Mynychu'r Ysgol yn caniatáu cyfnod o 15 diwrnod i'r rhiant ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani cyn bod rhaid i'r plentyn fynychu'r ysgol – adran 7.35:

*"… os oes ganddynt reswm da dros gredu nad yw rhieni yn darparu addysg addas mae awdurdodau'n gallu rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol i'r rhieni. Bydd hyn yn rhoi o leiaf 15 diwrnod i'r rhiant roi pa bynnag wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod i'w fodloni ei hun bod yr addysg yn addas."*

*13.7* Yn anffodus, nid oes un ateb cyffredinol a fydd yn helpu awdurdodau lleol i adnabod yr holl blant y maent yn gyfrifol amdanynt, ond mae defnyddio'r data a nodir yn y rheoliadau drafft wedi'i nodi fel y ffordd fwyaf effeithiol a manwl gywir o adnabod plant sy'n colli addysg. Mae gwaith wedi'i wneud gyda phartneriaid i bennu nifer y plant y credir eu bod ar goll o'r system addysg yng Nghymru, ac i brofi hyn ar sail y data sydd ar gael.

*13.8* Oherwydd y byddai'r gronfa ddata yn cael ei chynhyrchu drwy gysylltu data addysg â data iechyd, mae dichonoldeb y dull hwn wedi'i brofi drwy ddau ddull ar wahân. Y cyntaf oedd atgynhyrchu'r cysylltiad data yn y Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Cymharwyd data banc data dienw SAIL â setiau data awdurdodau lleol (data CYBLD, addysg heblaw yn yr ysgol ac addysg ddewisol yn y cartref) a chydag amcangyfrif ar gyfer y garfan o blant oedran ysgol yn seiliedig ar boblogaeth Cymru ar gyfer y flwyddyn honno. **Yn seiliedig ar y flwyddyn honno, amcangyfrifir bod cyfanswm o 12,997 o blant wedi colli addysg am y flwyddyn honno.** Roedd y nifer hwn yn weddol gyson â'r rhai o'r ail ddull – ymarfer cyfochrog yn seiliedig ar gymharu ffigurau cyfanredol o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer plant 5 i 15 oed ac o ffynonellau data addysg Llywodraeth Cymru. Roedd y ddau ymarfer yn dangos bod cymharu data iechyd a data addysg yn ddilys, ond dim ond swm cyfyngedig iawn o ddata, a nifer posibl y plant efallai nad oes cyfrif amdanynt.

*13.9* Mae data arall a ystyriwyd yn cynnwys cofnodion geni, data gwasanaethau cymdeithasol, gwybodaeth am fudd-daliadau plant, a gwybodaeth am drethi. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau lleol sydd wedi treialu'r dulliau hyn i nodi plant sy'n colli addysg wedi dweud eu bod yn eu gweld yn annibynadwy a'u bod yn defnyddio llawer o adnoddau. Canfuwyd bod data geni, yn arbennig, yn annibynadwy ac yn defnyddio llawer o adnoddau oherwydd y nifer uchel o deuluoedd sy'n symud allan o'r ardal eni yn y pum mlynedd cyn y disgwylir i'r plentyn ddechrau'r ysgol.

13.10 Mae rhai awdurdodau lleol wedi cadarnhau bod ganddynt rai trefniadau ar waith eisoes (o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004) gyda'u bwrdd iechyd lleol i rannu data am blant sy'n cefnogi eu prosesau plant sy'n colli addysg lleol, ac sy'n rhoi gwybod iddynt am blant nad ydynt yn ymwybodol ohonynt. Maent yn cynnwys atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol neu ymwelwyr iechyd pan fo pryder am blentyn, neu atgyfeiriadau eraill o fewn y bwrdd iechyd lleol, gan gynnwys mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys. Fodd bynnag,

nid yw'r mwyafrif o'r prosesau'n gyson ledled Cymru ac maent ond yn cipio cyfran o'r plant sydd eisoes wedi'u gweld gan weithiwr iechyd neu weithiwr gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol (ac a allai fod wedi cael eu hatgyfeirio at y swyddog lles addysg beth bynnag). Ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd â chytundebau rhannu data anffurfiol â'r bwrdd iechyd lleol, byddai'r trefniadau presennol hyn yn cael eu ffurfioli a'u gwella o bosibl drwy'r rheoliadau drafft.

13.11 Mae trefniadau rhannu data hefyd ar waith rhwng yr holl awdurdodau lleol a'r heddlu drwy Ymgyrch Encompass. Fodd bynnag, dim ond pan fydd yr heddlu'n cael eu galw i fynd i ddigwyddiad domestig lle mae plant yn bresennol yn y cartref y mae'r rhain yn berthnasol. Yn yr achosion hyn, bydd gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu â'r awdurdodau lleol ac ysgol y plentyn (os yw ar y gofrestr). Pan nad yw plentyn ar y gofrestr, mae rhai awdurdodau lleol yn rhannu'r wybodaeth hon â chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ddau o'r rhain yn enghreifftiau o rannu data rhwng cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau lles y plentyn. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn adweithiol i ddigwyddiad penodol yn hytrach na phroses safonol, ac efallai eu bod yn nodi is-set o blant yn unig nad yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rheoliadau drafft yn adlewyrchu rhai o'r trefniadau presennol sydd ar waith yng Nghymru, ond maent yn cynyddu'r cwmpas i nodi rhagor o blant a allai fod yn colli addysg, ac yn cael gwared ar y 'loteri cod post' er mwyn i awdurdodau lleol allu amddiffyn hawliau plant yn effeithiol (eu hawl i addysg).

13.12 *Yn ein barn ni, nid yw'r cynigion yn y rheoliadau drafft yn anghydnaws ag Erthygl 8 am y rhesymau uchod.*

**14. Preifatrwydd a chamau ymarferol**

14.1 Mae Erthygl 35 o GDPR y DU yn dweud bod yn rhaid i unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ystyried "risgiau i hawliau a rhyddid bodau dynol". Mae hyn yn cynnwys risgiau i breifatrwydd a hawliau diogelu data, ond hefyd effeithiau ar hawliau a buddiannau sylfaenol eraill. Y prif ddarpariaeth a ystyrir yma yw Datganiad 75 o GDPR y DU, sy'n cysylltu risg â'r cysyniad o niwed neu ddifrod posibl i unigolion.

14.2 Mae gweithgor Erthygl 29 o awdurdodau diogelu data'r UE wedi cyhoeddi canllawiau gyda naw maen prawf a all weithredu fel dangosyddion o risg uchel debygol. Gall y cynigion gynnwys y meini prawf canlynol:

- Data sydd wedi'i brosesu ar raddfa fawr
- Paru neu gyfuno setiau data
- Data sy'n ymwneud â thestunau data agored i niwed

14.3 Fel rhan o ddatblygu polisi ac asesu cynigion, rhoddwyd ystyriaeth ehangach i ddeilliannau anfwriadol posibl. Mae hyn yn cynnwys risg na fydd rhai rhieni o

bosibl yn cofrestru eu plant gyda meddygon teulu os ydynt yn gwybod y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu â’u hawdurdod lleol. Mae’n annhebygol iawn y byddem yn gallu dyfeisio datrysiad deddfwriaethol neu ddatrysiad polisi a fyddai’n galluogi inni adnabod pob plentyn a pherson ifanc sy’n cael ei addysgu yn y cartref, neu nad yw’n cael ei addysgu o gwbl, mewn ffordd systematig heb system sy’n galluogi’r llywodraeth i olrhain ei holl ddinasyddion (h.y. system adnabod orfodol). Mae dulliau eraill o fodloni amcan y polisi wedi cael eu harchwilio'n llawn (gan gynnwys cofnodion budd-daliadau plant a chofnodion geni, ymhlith eraill). Bydd rhai rhieni na fyddant yn gwneud eu hunain yn hysbys i awdurdodau, ni waeth a fydd trefniadau rhannu gwybodaeth (drwy unrhyw lwybr) yn cael eu cyflwyno’n ffurfiol, a byddant yn osgoi cael eu canfod gan awdurdodau sy’n ceisio nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o’r farn nad yw hwn yn rheswm da ynddo’i hun i beidio â mynd ar drywydd mesurau i geisio adnabod y plant dan sylw.

## 15. Egwyddorion diogelu data

15.1 Mae’r mesurau canlynol wedi’u cynnwys yn y cynigion drafft:

- lleihau cwmpas y data personol a gesglir, sef bod y data a gesglir o bob ffynhonnell wedi’i ddatgan yn y rheoliadau drafft a dyma’r lleiafswm cyfreithiol sy’n ofynnol i nodi plant o oedran ysgol gorfodol sy’n preswylio fel arfer mewn awdurdod lleol
- rheoli a chyfyngu ar fynediad at y data (fel y nodir yn y rheoliadau drafft)
- diogelu’r ‘triawd CIA’ traddodiadol o ran data personol, sef cyfrinachedd (*Confidentiality*), cyfanrwydd (*Integrity*), ac argaeledd (*Availability*)
- gwytnwch systemau a gwasanaethau prosesu, a'r gallu i adfer argaeledd a mynediad at ddata personol
- profi effeithiolrwydd y mesurau a roddwyd ar waith yn rheolaidd

*Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder*

15.2 Bydd Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy’n Colli Addysg) (Cymru) yn cael eu datblygu gan ddefnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf 2004. Mae adran 29 o Ddeddf 2004 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth mewn perthynas â sefydlu a gweithredu unrhyw gronfa ddata neu gronfeydd data o dan adran 29. Yn y nodyn esboniadol ar gyfer yr adran hon, mae paragraff 70 yn nodi y byddai’r cronfeydd data at ddiben:

> “…*hwyluso cyswllt rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant unigol neu sydd â phryderon am eu datblygiad, eu llesiant neu eu lles gyda'r nod o sicrhau ymyrraeth gynnar, gydlynol".*
>
> Yn ogystal:
>
> *“…diben cynnwys y data sylfaenol a nodir yn is-adran (4) yw helpu ymarferwyr i adnabod yn gyflym blentyn y maent mewn cysylltiad ag ef, ac a*

*yw'r plentyn hwnnw'n cael y gwasanaethau cyffredinol (addysg, gofal iechyd sylfaenol) y mae ganddo hawl i'w cael".*

15.3 Mae'r rheoliadau dim ond yn darparu mecanwaith i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau (o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002), ac ymgymryd â'r prosesau presennol a amlinellir yn y canllawiau statudol 'Helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg' ("canllawiau plant sy'n colli addysg"). Yr unig ddyletswydd "newydd" i awdurdodau lleol yw ei gwneud yn orfodol greu'r gronfa ddata. Mae proses y gronfa ddata yn cyd-fynd â'r canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg, sydd wedi bod ar waith ers 2010. Mae'r canllawiau eisoes yn amlinellu'r diffiniad o blant sy'n colli addysg a'r prosesau y bydd awdurdodau lleol yn eu dilyn pe bai plentyn yn cael ei ystyried yn "blentyn sy'n colli addysg".

15.4 Mae plentyn sy'n colli addysg wedi'i ddiffinio yn y canllawiau ar blant sy'n colli addysg, ac mae'n cyfeirio at unrhyw blentyn o oedran ysgol statudol nad yw mewn ysgol, sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, neu sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ac y gwyddys ei fod yn cael addysg addas. Mae hyn oherwydd nad yw sefydlu cronfa ddata o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn unig (y mwyafrif ohonynt yn cael addysg addas) yn bodloni amcan y polisi yn llawn, nid yw'n cysylltu ag argymhellion adolygiad ymarfer plant Dylan Seabridge, ac nid yw'n cynnwys plant nad ydynt eisoes yn hysbys i'r awdurdod lleol. Mae'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref yn rhoi mwy o eglurder i rieni a gofalwyr ar rôl yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau addysg mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref (a phlant sy'n colli addysg).

15.5 *Nid* yw plant sydd ar gofrestr yr ysgol ond nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd o fewn cwmpas dyletswydd adran 436A (sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i nodi pa blant yn eu hardal *nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas heblaw yn yr ysgol*). Mae dyletswyddau ar wahân ar awdurdodau lleol i gynnal safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ysgol, a mecanweithiau i gefnogi presenoldeb. Ni ddylai plant sy'n colli addysg gael eu cyfuno â phlant sydd â phresenoldeb ysgol wael neu blant nad ydynt yn mynychu'r ysgol o gwbl.

15.6 Mae canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref yn glir nad yw addysg ddewisol yn y cartref ynddi ei hun yn risg diogelu. Mae awdurdodau lleol eisoes yn cadw gwybodaeth am blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref – ar yr amod eu bod wedi cael gwybod gan y rhiant neu'r ysgol y mae'r plentyn yn ei gadael bod y plentyn yn cael neu ar fin cael ei addysgu yn y cartref – ac mae gan awdurdodau lleol brosesau ar waith er mwyn sicrhau y gallant gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â'r plant hyn. Mae plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref dim ond mewn perygl posibl os na all awdurdod lleol gysylltu â'r plentyn, os nad yw'n gwybod am y plentyn, neu os nad yw wedi'i weld (ac felly'n methu â phenderfynu a yw'n cael addysg addas ai peidio). Yn yr achosion hyn, dylid dosbarthu'r plentyn yn blentyn sy'n colli addysg. Fel gyda'r rheoliadau drafft blaenorol, bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol rannu

gwybodaeth sylfaenol am blant sydd wedi'u cofrestru gyda nhw â'r awdurdod lleol perthnasol.

*Cyfyngiad diben a chyfyngiad storio*

15.7 Fel y nodir ym mharagraff 8.4, o dan y rheoliadau ni all awdurdodau lleol gael mynediad i'r wybodaeth yn y gronfa ddata at ddibenion heblaw cyflawni eu swyddogaethau addysg o dan: Ran 6 (derbyniadau i ysgolion, presenoldeb yn yr ysgol a thaliadau ysgol) o Ddeddf Addysg 1996, adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, a Rhan 2 (anghenion dysgu ychwanegol) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r rheoliadau at ddiben penodol, wedi'u tanategu gan y canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg. Nodir hyn yn y rheoliadau.

15.8 Mae'r darpariaethau wedi'u cyfyngu ymhellach gan y gofynion dileu data yn rheoliadau 6–11, "gweithdrefn ar gyfer dileu cofnod plentyn sy'n colli addysg" (mae'r gofynion hyn hefyd yn berthnasol i gyfyngu ar storio). Bydd darpariaethau clir ar gadw a dileu data yn cael eu nodi'n glir yn y canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg, a fydd yn cael eu hadolygu i adlewyrchu gofynion y gronfa ddata. Er mwyn sicrhau na fydd y data'n cael ei gadw ar y gronfa ddata am fwy o amser nag sydd angen, bydd y canllawiau'n nodi, pan nad yw plentyn bellach yn byw yn ardal yr awdurdod lleol, y dylid dileu ei ddata cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r awdurdod lleol bennu nad yw'r plentyn bellach yn colli addysg. Pan fydd plentyn yn dod yn ddisgybl cofrestredig, neu pan fydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod y plentyn yn cael addysg addas, byddai ei ddata, yn yr un modd, yn cael ei ddileu cyn pen 30 diwrnod. Yn olaf, os yw'r plentyn wedi marw neu'n peidio â bod o oedran ysgol gorfodol, yn yr un modd eto byddai ei ddata'n cael ei ddileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a chyn pen 30 diwrnod.

15.9 Er y byddai'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol a chontractwr gwasanaethau meddygol cyffredinol ddarparu gwybodaeth ofynnol i'r awdurdod lleol am yr holl blant sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, eto, yn unol â'r atodlen, unwaith y bydd yr ymarfer cymharu data wedi'i gwblhau, byddai'r awdurdod lleol yn dileu data o'r fath a ddaeth i law ar gyfer y mwyafrif o'r plant hynny sydd ar y rhestr. Mae hyn yn cynnwys plant y gwyddys eu bod yn cael addysg addas, h.y. plant ar gofrestr yr ysgol, plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, a phlant sy'n cael eu haddysg yn y cartref y gwyddys eu bod yn cael addysg addas. Unwaith y bydd yr ymarfer cymharu data wedi'i gwblhau, bydd data sy'n ymwneud â'r plant hynny nad ydynt yn colli addysg yn cael ei ddileu'n barhaol heb oedi gormodol (a chyn pen mis fan bellaf) yn unol ag amserlen cadw a gwaredu'r awdurdod lleol (yn unol â chanllawiau'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Bydd y gofyniad hwn (i ddileu'r data nad oes ei angen ar gyfer y gronfa ddata o blant sy'n colli addysg yn barhaol) yn cael ei nodi yn y canllawiau statudol a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau. Bydd y canllawiau'n egluro, wrth sefydlu'r gronfa ddata o blant sy'n colli addysg, y bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu at y rhiant i'w hysbysu bod enw'r plentyn wedi'i gynnwys yn y gronfa ddata, ac yn gofyn am wybodaeth gan y rhiant i alluogi'r awdurdod lleol i gael sicrwydd bod y plentyn yn cael addysg addas. Bydd yr awdurdod lleol wedyn yn parhau i ddilyn ei brosesau sy'n ymwneud â phlant sy'n colli addysg; mae'r rhain eisoes wedi'u nodi yn y canllawiau presennol ac wedi'u

rhoi ar waith ar draws awdurdodau lleol. Dylid gwneud y trefniadau hyn yn ddi-oed.

15.10 Mae’r Senedd yn darparu yn adrannau 29(13) ac (14) o Ddeddf 2004 bod rhaid i unrhyw berson sy’n sefydlu neu’n gweithredu cronfa ddata o dan yr adran hon, wrth sefydlu neu weithredu’r gronfa ddata, roi sylw i unrhyw ganllawiau, a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd, a roddir i’r person hwnnw gan Weinidogion Cymru. Mae adran 29(14) yn darparu y gall y canllawiau neu’r cyfarwyddiadau yn benodol (ymysg pethau eraill) ymwneud â rhoi cyngor mewn perthynas â hawliau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Er mwyn sicrhau bod modd paru’r data sy’n cael ei gymharu’n effeithiol, dylai awdurdodau lleol gynnal yr ymarfer cymharu cyn pen mis o gael y data iechyd. Bydd y disgwyliad hwn yn cael ei nodi yn y canllawiau statudol diwygiedig ar blant sy’n colli addysg.

15.11 Bydd gofyniad sy’n datgan mai dim ond gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant a allai fod yn colli addysg a fyddai'n cael ei chadw ar gyfer y gronfa ddata yn cael ei gynnwys yn y canllawiau statudol diwygiedig. Bydd y canllawiau'n nodi y bydd yr wybodaeth sy'n weddill am blant nad ydynt yn colli addysg yn cael ei dileu heb oedi gormodol (cyn pen mis fan bellaf). Mae hyn oherwydd na fydd angen y data ar yr awdurdod lleol at ddibenion y gronfa ddata. **Fodd bynnag, dylid nodi bod yr wybodaeth sy’n cael ei dileu’n barhaol eisoes yn cael ei chadw mewn man arall gan yr awdurdod lleol (cofnod addysg y plentyn) fel y mae’n ymwneud â phlant oedran ysgol.** O ganlyniad, byddai'r awdurdod lleol yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chadw ar gyfer y gronfa ddata i ddod o hyd i'r plant i benderfynu a ydynt yn colli addysg. Byddai’r wybodaeth am y plant hynny’n cael ei thynnu oddi ar y gronfa ddata unwaith y bydd yr awdurdod lleol wedi’i sicrhau nad yw’r plant hyn yn colli addysg, neu os yw’n ofynnol o dan ddarpariaethau eraill a nodir yn y rheoliadau drafft ac fel y cyfeirir atynt isod.

15.12 Er y bydd yr wybodaeth yn cael ei dileu o'r gronfa ddata o blant sy’n colli addysg, bydd gan unrhyw blentyn a oedd yn colli addysg yn flaenorol gofnod addysg gweithredol yn yr awdurdod lleol hyd nes / oni bai ei fod yn symud allan o'r awdurdod lleol neu'n peidio â bod o oedran ysgol gorfodol. Unwaith y caiff ei thynnu, byddai’r wybodaeth o’r gronfa ddata o blant sy’n colli addysg yn cael ei chynnwys yn y gronfa ddata addysg berthnasol yn yr awdurdod lleol, yn dibynnu ar y ddarpariaeth y mae’r plentyn yn ei chael (ysgol, addysg heblaw yn yr ysgol neu addysg ddewisol yn y cartref), a byddai’r un egwyddorion cadw sydd gan yr awdurdod lleol yn berthnasol i’w ddata, yn unol â’r amserlen gadw berthnasol (ar gyfer cofnodion addysg plant).

15.13 Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu mandadu adolygiad cyfnodol o’r data gan awdurdodau lleol i benderfynu a oes angen cadw’r data perthnasol. Mae'r gronfa ddata yn weithredol a chaiff enw plentyn ei ddileu pan nad yw bellach yn colli addysg. Unwaith y bydd gan yr awdurdod lleol restr o'r plant hynny a allai fod yn colli addysg, bydd yn gweithio i nodi a dod o hyd i’r plant, ac yna bydd yn dechrau'r broses o benderfynu a yw eu haddysg yn addas ai peidio. Mae'r broses hon eisoes wedi'i gwreiddio ym mhrosesau awdurdodau lleol pan fydd plentyn sy'n colli addysg yn cael ei nodi a bod awdurdod lleol yn dilyn y camau a amlinellir yn y canllawiau. Os yw data yn y gronfa ddata, y rheswm am hynny yw bod yr awdurdod lleol yn mynd ati i wneud ymholiadau ynghylch y math o

ddarpariaeth addysg a pha mor addas yw hi. Gall ymholiadau fod yn barhaus, yn dibynnu ar lefel yr ymgysylltu â’r teulu, ac ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir.

*Lleihau data*

*15.14* Yn unol â'r egwyddor lleihau data, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i rannu'r *lleiafswm* o wybodaeth sydd ei hangen i adnabod plentyn. Byddai’r wybodaeth gan fyrddau iechyd lleol sy’n ymwneud â phlant yn wybodaeth sylfaenol, anghlinigol, ac mae’n ostyngiad ar y swm a fyddai wedi bod yn ofynnol o dan reoliadau drafft 2020, ac yn newid a wnaed ar ôl ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn 2019. Mae awdurdodau lleol wedi cadarnhau mai enw, cyfeiriad a dyddiad geni pob plentyn yw’r isafswm absoliwt y byddai ei angen i baru data iechyd yn gywir â’u data addysg, er bod rhai awdurdodau lleol wedi pwysleisio y byddai rhagor o ddata, gan gynnwys rhif GIG y plentyn, yn fwy buddiol er mwyn sicrhau cywirdeb a rhwyddineb paru data.

*15.15* Mae cwmpas llai’r rheoliadau drafft yn anelu at fynd i’r afael â’r ymholiadau a godwyd yn ymgynghoriad 2019 ynghylch cymesuredd y cynigion. Mae’r sail resymegol dros y rheoliadau drafft yn gysylltiedig ag adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Mae hon yn ddarpariaeth ehangach sy’n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau addysg (fel y nodir yn y Deddfau addysg) gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy’n byw yn eu hardal. Rydym o’r farn bod y ddarpariaeth hon wedi’i chysylltu’n fwy penodol ag adran 29 o’r Ddeddf Plant.

*15.16* Gall cynnwys y gronfa ddata felly gynnwys gwybodaeth am blant nad oedd yr awdurdod lleol yn gwybod amdanynt o’r blaen, ond hefyd gwybodaeth am blant y mae’r awdurdod lleol eisoes yn gwybod amdanynt, lle nad yw wedi gallu cyflawni ei swyddogaethau addysg mewn perthynas â’r plentyn hwnnw.

*Cywirdeb*

*15.17* Mae swyddogion wedi trafod y gofynion â swyddogion iechyd, ac wedi ymgynghori â phartneriaethau cydwasanaethau’r GIG ar ymarferoldeb/argaeledd y data hwn ac ymarferoldeb darparu pob set ddata yn ddiogel i’r awdurdod lleol perthnasol. Mae partneriaethau cydwasanaethau'r GIG wedi cadarnhau y gellir trosglwyddo'r wybodaeth. Ni ellir lleihau'r gofynion ymhellach heb effeithio ar gywirdeb a diogelwch y data. Mae awdurdodau lleol o’r farn y byddai cynnwys categorïau ychwanegol (nad ydynt yn sensitif) (e.e. rhif yswiriant gwladol rhiant neu rif GIG) yn sicrhau bod plant yn cael eu hadnabod yn gywir, ac y byddai’n helpu i nodi plant sy’n symud rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys yn Lloegr.

*Cyfanrwydd a chyfrinachedd (diogelwch)*

*15.18* Mae Erthygl 3 o CCUHP (budd pennaf y plentyn), er na chyfeirir ati’n benodol yn y ddeddfwriaeth GDPR, yn ystyriaeth hollbwysig. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i rannu data sylfaenol ac anghlinigol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hawliau, ac yn arbennig eu hawl i addysg addas. Mae’n ofynnol i awdurdodau lleol fod â pholisïau a phrosesau diogelu data a diogelwch

gwybodaeth priodol ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cadw cofnodion o weithgareddau prosesu a'u bod wedi penodi swyddog diogelu data.

*15.19* Mae Ysgol i Ysgol (s2s) yn wefan trosglwyddo data ddiogel sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Fe'i cynlluniwyd i alluogi ffeiliau trosglwyddo cyffredin i gael eu hanfon o unrhyw ysgol a gynhelir, ac iddynt. Mae gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru gyfrifoldeb statudol i ddefnyddio'r system drosglwyddo gyffredin ar gyfer Cymru a Lloegr i drosglwyddo gwybodaeth benodol yn electronig, drwy wefan 'school2school – s2s'.

*15.20* Pan fydd dysgwyr yn symud o un ysgol i'r llall, s2s yw'r mecanwaith i'w holrhain, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu colli o'r system, a bod unrhyw wybodaeth arwyddocaol, er enghraifft anghenion addysgol arbennig neu fanylion megis plant 'sy'n derbyn gofal', ar gael ar unwaith i'r ysgol newydd. Rhaid creu ffeil drosglwyddo gyffredin ar gyfer pob dysgwr sy'n gadael ysgol, hyd yn oed os nad yw'r gyrchfan yn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu Loegr neu os nad yw'r gyrchfan yn hysbys.

*15.21* Mae'r Gronfa Ddata Disgyblion Coll yn offeryn ychwanegol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn sicrhau bod plant sy'n symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol a/neu ysgolion yn cael eu cofnodi'n ddiogel, a bod awdurdodau lleol wedyn yn gallu cymryd camau i ddod o hyd iddynt, yn unol â chanllawiau plant sy'n colli addysg.

*15.22* Mae gan awdurdodau yng Nghymru rwymedigaethau diogelwch penodol o dan Erthygl 32 o GDPR y DU. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi mesurau technegol a threfniadol priodol ar waith er mwyn sicrhau lefel o ddiogelwch yn yr amgylchedd prosesu.

*Atebolrwydd*

15.23 Awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol fydd y rheolyddion data ac mae ganddynt fecanweithiau presennol ar waith i rannu data'n ddiogel. Mae gan awdurdodau yng Nghymru rwymedigaethau diogelwch penodol o dan Erthygl 32 o GDPR. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi mesurau technegol a threfniadol priodol ar waith er mwyn sicrhau lefel o ddiogelwch yn yr amgylchedd prosesu. Byddai eu prosesau presennol yn berthnasol i'r gronfa ddata o blant sy'n colli addysg.

## 16. Effaith preifatrwydd ar y plentyn / mynediad y plentyn at wybodaeth bersonol

16.1 Wrth asesu effaith rhannu data ar y plentyn, mae'r mwyafrif o'r plant yn mynychu ysgol neu leoliad cofrestredig arall ac mae'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chadw'n ddiogel gan yr awdurdod lleol, trwy gofnodion addysg, ac yn

cael ei defnyddio gan swyddogion yr awdurdod lleol i gyflawni eu swyddogaethau addysg. Byddai’r un gofynion prosesu data yn berthnasol i’r set ddata a geir drwy’r rheoliadau, er mwyn sicrhau nad yw testunau’r data (plant) yn cael eu heffeithio’n uniongyrchol gan brosesu eu data personol, sylfaenol. Yn yr un modd â’r ffaith nad yw plant yn cael eu heffeithio gan / yn ymwybodol o’r broses o rannu gwybodaeth sylfaenol o dan drefniadau anffurfiol presennol a amlinellwyd yn flaenorol, ni fyddai'r broses rhannu data sy'n ofynnol o dan y rheoliadau yn effeithio'n uniongyrchol ar blant.

16.2 Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth gan y byrddau iechyd lleol, unwaith y bydd wedi'i chroesgyfeirio, yn cael ei thynnu o'r set ddata gan mai dim ond i wirio enwau yn erbyn ei ddata addysg y mae ei hangen ar yr awdurdod lleol. Ni all yr awdurdod lleol ei defnyddio at unrhyw ddiben arall, ond mae cofnod y plentyn yn cael ei gadw mewn man arall gan yr awdurdod lleol (naill ai drwy’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, cofnodion addysg heblaw yn yr ysgol, neu gofnodion addysg ddewisol yn y cartref – ar yr amod bod y rhiant wedi hysbysu’r awdurdod lleol ei fod yn addysgu yn y cartref). Pan fo’r plentyn yn hysbys i’r awdurdod lleol ond nad yw ar y gofrestr yn yr ysgol neu’n cael addysg heblaw yn yr ysgol, amgylchiadau unigol y plentyn hwnnw fydd yn pennu a yw’n colli addysg ac yn cael ei gynnwys yn y gronfa ddata. Er enghraifft, bydd plentyn y gwyddys ei fod yn cael addysg ddewisol yn y cartref, ac mae’r awdurdod lleol yn fodlon ei fod yn cael addysg addas, yn cael ei gynnwys yng nghofnodion addysg ddewisol yn y cartref yr awdurdod lleol, ac felly nid yw’n blentyn sy’n colli addysg.

*Prosesu anweledig*

16.3 Er na fydd rhieni’r plentyn/plant o reidrwydd yn ymwybodol o’r broses o brosesu data wrth iddi gael ei gwneud, mae’r rheoliadau yn cyd-fynd â’r canllawiau statudol cyfredol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2010 ac a ddiweddarwyd yn 2017. Nid Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd, ond mae’n ceisio mandadu trefn brosesu a allai arwain at risgiau yn ymwneud â phrosesu anweledig. Er eu bod yn cydnabod mai’r rheolyddion data sy’n gyfrifol am y risg hon yn y pen draw, gall y rheolyddion data geisio dibynnu ar yr esemptiadau yn Erthygl 14(5) bod y datgeliad yn ofynnol o dan gyfraith ddomestig, ac y bydd y drefn arfaethedig a’r canllawiau a gyhoeddir yn darparu mesurau priodol i ddiogelu buddiant dilys testun y data.

16.4 Bydd y canllawiau cyfredol yn cael eu diweddaru i gynnwys gofynion y gronfa ddata, ac i ddarparu tryloywder ar y broses y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn ei dilyn i fodloni gofynion y rheoliadau. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth glir ynghylch pryd y byddai enw plentyn yn cael ei gynnwys ar y gronfa ddata, pryd na fyddai'n cael ei gynnwys, proses a gweithdrefn yr awdurdod lleol o hysbysu'r rhiant bod y plentyn wedi'i nodi'n 'blentyn sy'n colli addysg', a'r dystiolaeth y mae angen i riant neu warcheidwad ei darparu i'r awdurdod lleol er mwyn i wybodaeth y plentyn gael ei thynnu oddi ar y gronfa ddata.

16.5 Yn y pen draw, mater i'r rheolydd data fydd asesu a oes angen iddo ddarparu gwybodaeth am breifatrwydd neu a oes unrhyw rai o'r esemptiadau yn berthnasol. Mae hyn wedi'i ystyried gan Lywodraeth Cymru fel risg bosibl o fewn y cynnig cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn cael ei gefnogi gan awdurdodau lleol (fel rheolyddion) a bernir mai cael yr wybodaeth gan drydydd parti yw'r unig ffordd i awdurdodau lleol gael yr wybodaeth, sy'n ofynnol ganddynt i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Byddai'r holl lwybrau amgen a ystyriwyd (a amlinellwyd yn 11.1) hefyd wedi mynnu bod data'n cael ei rannu trwy drydydd parti. Mae rhai o'r dulliau hyn naill ai wedi'u treialu gan awdurdodau lleol eisoes, neu ar waith mewn rhai awdurdodau lleol drwy drefniadau anffurfiol gyda'r corff perthnasol. Nid oes unrhyw fecanwaith wedi'i nodi a fyddai'n bodloni amcan y polisi na fyddai'n arwain at risgiau ynghylch prosesu anweledig.

Mae'n bosibl y bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data hwn yn destun newidiadau pellach wrth i'r polisi ddatblygu.

## Cam 5: Adnabod ac asesu risgiau

| **Disgrifiwch ffynhonnell y risg a natur yr effaith bosibl ar unigolion.** Dylid cynnwys risgiau cydymffurfedd a chorfforaethol cysylltiedig yn ôl yr angen. | **Tebygolrwydd o niwed** | **Difrifoldeb y niwed** | **Risg gyffredinol** |
|---|---|---|---|
| 1. Defnyddir y data at ddibenion heblaw diben arfaethedig y rheoliadau. | posibl | sylweddol | Isel |
| 2.Mae data y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen at y diben penodedig yn cael ei gasglu a/neu ei brosesu. | annhebygol | sylweddol | Canolig |
| 3.Nid yw data'n cael ei ddilysu cyn ei fewnforio a'i brosesu gan fyrddau iechyd lleol. Gallai hyn arwain at gronfa ddata gyda data sy'n annilys neu o ansawdd gwael, gan leihau effeithiolrwydd y system newydd i nodi plant sy'n colli addysg yn gywir. | posibl | bach | Canolig |
| 4.Mynediad anawdurdodedig i'r data a fyddai'n datgelu lleoliad plant sy'n agored i niwed. | posibl | difrifol | Isel |
| 5.Diffyg rheolaethau diogelwch neu reolaethau diogelwch gwael (awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) – gan arwain at golli cyfanrwydd, argaeledd a chyfrinachedd data personol. | posibl | sylweddol | Canolig |
| 6.Prosesu anweledig – efallai na fydd plant a/neu eu rhieni yn gwybod y bydd y data'n cael ei brosesu fel rhan o'r broses plant sy'n colli addysg, neu ganlyniad y prosesu hwnnw. | posibl | bach | Canolig |
| 7.Mae rhieni/gofalwyr yn dewis peidio â chofrestru eu plentyn gyda meddyg teulu er mwyn osgoi cael eu canfod gan awdurdodau, neu'n methu â cheisio cymorth meddygol ar gyfer eu plentyn. | posibl | bach | Isel / Canolig |

## Cam 6: Nodi mesurau i leihau risg

| **Nodwch fesurau ychwanegol y gallech eu cymryd i leihau neu ddileu risgiau a nodwyd fel risg ganolig neu uchel yng ngham 5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Risg** | **Opsiynau i leihau neu ddileu risg** | **Effaith ar risg** | **Risg weddilliol** | **Mesur wedi ei gymeradwyo** |
| 1. | Mae rheoliadau cronfeydd data yn pennu / cyfyngu ar y swyddogaethau y gellir defnyddio'r data ar eu cyfer. Bydd y canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg yn cael eu hadolygu i adlewyrchu diben y gronfa ddata.<br>Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol o, ac wedi gofyn am, reoliadau er mwyn sicrhau y gallant gyflawni eu dyletswyddau statudol *presennol*, nid swyddogaethau newydd. | Wedi'i lleihau / ei dileu | Isel | Ydy |
| 2. | Mae rheoliadau yn nodi'r data i'w rannu.<br>Gwaith cwmpasu gyda byrddau iechyd lleol / gwasanaethau a cydwasanaethau'r GIG cyn i reoliadau gael eu gwneud er mwyn sicrhau bod cwmpas y data yn cael ei ddeall. | Wed'i lleihau | Isel | Ydy |
| 3. | Rheoliadau i nodi bod yn rhaid i bob rheolydd data gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir. Dylai'r rheolyddion data gael gweithdrefnau dilysu data priodol ar waith a chroesgyfeirio trwyadl ym mhob awdurdod lleol â gwasanaethau lles addysg, cydweithwyr ADY a | Wed'i lleihau | Isel | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | swyddogion derbyn fel bod gan awdurdodau lleol rywfaint o sicrwydd wrth adnabod plant. | | | |
| 4. | Mae trefniadau diogelu presennol ar waith yn yr awdurdod lleol er mwyn rhannu gwybodaeth am blant sy’n agored i niwed. Mae gan awdurdodau lleol systemau i rannu gwybodaeth am blant rhwng ysgolion, awdurdodau lleol eraill a chyrff cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys systemau diogel presennol ar gyfer cyrchu a phrosesu data – DEWi, prosesau CYBLD, s2s a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.<br><br>Cyfyngir mynediad at y data i staff yr awdurdod lleol sydd angen mynediad i wneud eu gwaith ac at y dibenion a nodir yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau yn cyfyngu ar fynediad i'r wybodaeth. | Wed’i lleihau | Isel | Ydy |
| 5. | Dylai awdurdodau lleol ddatblygu / datblygu neu ddiwygio ymhellach eu protocolau rhannu gwybodaeth sy'n egluro o dan ba amgylchiadau y gellir, ac y dylid, rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau sy'n cefnogi plant. Dylai pob awdurdod lleol roi protocolau ar waith er mwyn sicrhau na wneir unrhyw gysylltiad neu ddatgeliad amhriodol â rhiant/rhieni a allai roi plant neu riant/rhieni mewn perygl.<br><br>Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi llofnodi Cytundeb | Wed’i lleihau | Canolig/isel | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6. | Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Mae'r cytundeb yn darparu templedi o gytundebau rhannu data megis protocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data i awdurdodau lleol eu defnyddio.<br><br>Mae'r gronfa ddata yn fecanwaith i gefnogi polisi sy'n bodoli eisoes, sydd eisoes wedi'i ymgorffori ar draws awdurdodau lleol (y broses plant sy'n colli addysg).<br><br>Ymgysylltu'n barhaus â'r cyhoedd, a diwygiadau i'r canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg i egluro'r prosesu a fydd yn digwydd a'r camau y gall rhieni/gofalwyr eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth yn cael ei chadw yn y gronfa ddata o blant sy'n colli addysg.<br><br>Bydd y canllawiau statudol ar blant sy'n colli addysg yn cael eu hadolygu i gynnwys disgrifiad o'r broses rhannu data o dan y rheoliadau. Bydd hyn yn cynnwys y camau y bydd awdurdod lleol yn eu cymryd i benderfynu a yw plentyn yn colli addysg, sut y rhoddir gwybod i'r rhiant, a'r camau y gallant eu cymryd i sicrhau nad yw eu plentyn yn colli addysg.<br><br>***Mae'r canllawiau ar blant sy'n colli addysg, a'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref, eisoes yn nodi'r gofynion ar rieni i** | Wed'i lleihau | Canolig | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7. | **ddarparu addysg addas a’r risg y bydd plentyn ‘o fewn cwmpas y canllawiau ar blant sy’n colli addysg’ os yw’r awdurdod lleol yn penderfynu nad yw’n cael addysg addas. Fodd bynnag, gellir diwygio'r dogfennau er mwyn sicrhau bod mwy o bwyslais ar y gofyniad hwn.**<br><br>Bydd ymgyrch cyfathrebu yn sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r gofynion newydd.<br><br>Er mwyn lliniaru'r risg bosibl hon, mae'r data sy'n ofynnol gan wasanaethau iechyd wedi'i leihau i'r isafswm sydd ei angen i adnabod plentyn. Yn y mwyafrif o’r achosion, mae awdurdodau lleol eisoes yn cadw'r wybodaeth.<br><br>Dim ond drwy gofrestriadau meddygon teulu y mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i rannu data. Ni fyddai gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o dderbyniadau i'r ysbyty neu apwyntiadau arferol yn cael ei rhannu. Byddai plant nad ydynt wedi cofrestru gyda meddygon teulu yn dal i allu cael mynediad at y gwasanaethau hyn.<br><br>Mae yna eisoes ddyletswyddau ar feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill i rannu gwybodaeth am blentyn â'r corff perthnasol os oes ganddynt bryderon am blentyn. Gan fod y mesurau hyn eisoes ar waith, mae'n debygol bod y rhieni hynny | Wedi'i lleihau cyn belled ag y bo modd ar hyn o bryd | Isel | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sy'n bwriadu aros o dan radar yr awdurdodau eisoes wedi dewis peidio â chofrestru gyda meddyg teulu. Mae'r tebygolrwydd y bydd rhieni'n dewis *peidio* â chofrestru gyda meddyg teulu (ac felly ddim yn ceisio cymorth meddygol) fel ymateb i gyflwyno'r rheoliadau cronfa ddata wedi'i asesu'n isel. Mae hyn oherwydd bod rhieni nad ydynt am i awdurdodau (e.e. gwasanaethau cymdeithasol) wybod am blentyn yn debygol o fod wedi cymryd camau perthnasol eisoes i barhau heb eu canfod.<br><br>Ni ellir mesur y risg bosibl hon yn llawn ar hyn o bryd, ond gellir ei hasesu'n fwy cywir yn dilyn y peilot trwy gymharu data'r cyfrifiad â'r set ddata addysg a gwblhawyd (rhestrau CYBLD, addysg heblaw yn yr ysgol, ysgolion annibynnol, plant sy’n colli addysg ac addysg ddewisol yn y cartref). | | | |

## Cam 7: Cymeradwyo a chofnodi deilliannau